

Cymraeg yn gyntaf  
Cofnodi'r dewis iaith  
Parchu'r dewis iaith  
Cyfarch yn ddwyieithog  
Cofnodi'r dewis iaith

# Cynnal

# Cyfarfodydd Dwyieithog

â chymorth Cyfieithu  
ar y Pryd



RHONDDA CYNON TAF

Cymraeg yn gyntaf

Cofnodi'r dewis iaith

Parchu'r dewis iaith

Cyfarch yn ddwyieithog

Cofnodi'r dewis iaith

Cymraeg yn y gweithle

Cynnig rhagweithio

Dwyieithog ar gyfer y cyhoedd

Cymraeg yn gyntaf

Cyfarch yn ddwyieithog

Cymraeg yn y gweithle



**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a bydd e'n sicrhau bod modd i bobl sy'n dymuno byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny wrth ymwneud â'r Cyngor; a bod gan Gynghorwyr ac eraill sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd Cyngor bob cyfle i wneud hynny, yn unol â Safonau'r Gymraeg.**

Paratowyd y canllawiau yma er mwyn cefnogi Cynghorwyr a staff i:

- ddefnyddio'r Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad,
- ddefnyddio cyfarpar cyfieithu ar y pryd yn y modd mwyaf priodol os ydyn nhw am eu defnyddio, a
- sicrhau bod cyfarfodydd dwyieithog yn cael eu cynnal mor hwylus â phosibl.



## Trefnu cyfarfod dwyieithog

Dylai'r rheiny sy'n dymuno trefnu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd ystyried y canlynol:

- Yn unol â Safonau'r Gymraeg, dylai hysbysebion ac agendâu cyfarfodydd ddatgan y bydd modd siarad yn y naill iaith neu'r llall, ac y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.
- Dylech chi roi cymaint o rybudd ag y bo modd i'r Uned Gwasanaethau Cymraeg er mwyn trefnu cyfieithydd ar y pryd.
- Sicrhau bod yr holl ohebiaeth sy'n ymwneud â'r cyfarfod yn ddwyieithog.
- Sicrhau bod y cyfieithydd ar y pryd / Uned Gwasanaethau Cymraeg ([cyfieithu-translation@rctcbc.gov.uk](mailto:cyfieithu-translation@rctcbc.gov.uk)) yn derbyn y dogfennau sy'n berthnasol i'r cyfarfod ymlaen llaw, gan gynnwys unrhyw ddatganiadau neu sgriptiau sydd wedi'u paratoi ymlaen llaw.
- Cylchredeg geirfa a therminoleg berthnasol os bydd y cyfarfod yn trafod pwnc sydd ddim fel arfer yn cael ei drafod drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cofio y caiff gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ei ddarparu ar gyfer pobl ddi-Gymraeg. Pur anaml y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg yn cael ei gynnig.
- Egluro i'r cyfieithydd ar y pryd wrth drefnu'r gwasanaeth pa fath o gyfarfod sydd dan sylw – cyfarfod cyhoeddus, cyfarfod pwyllgor, cyfweiliad, seminar, cyfarfod cymdeithas wirfoddol, ac ati.
- Sicrhau bod digon o amser i osod offer cyfieithu ar y pryd cyn i'r cyfarfod ddechrau a bod modd i bobl gael gafael ar yr offer yn hawdd.
- Sicrhau bod yr ystafell lle mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn briodol ac o'r maint cywir, a bod yr acwsteg yn dderbyniol.
- Sicrhau bod cadachau diheintio ar gael yn yr ystafell er mwyn i ddefnyddwyr lanhau'r clustffonau pe hoffon nhw wneud hynny.



## Defnyddio clustffonau cyfieithu yn ystod cyfarfod

- Sicrhewch bod y clustffonau wedi'u cynnu.
- Rhwng freichiau'r clustffon yn eich clustiau fel eu bod yn hongian o dan y gën.
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gallu clywed y cyfieithydd ar y pryd yn ystod prawf byr drwy'r Cadeirydd.
- Os allwch chi ddim clywed y cyfieithiad, addaswch y sain neu dynnu sylw'r Cadeirydd (a fydd yn siarad â'r cyfieithydd).
- Os oes angen codi mater ynglŷn â'r offer cyfieithu / y cyfieithiad, gwnewch hynny trwy'r Cadeirydd.
- Diffoddwch y clustffon ar ddiwedd y cyfarfod a'i adael ar y ddesg.
- Mae'r clustffonau yn cael eu glanhau ar ôl eu defnyddio. Fodd bynnag, mae croeso i ddefnyddwyr y clustffonau ddefnyddio cadachau diheinito i lanhau'r clustffonau.

## Cyfrannu yn y Gymraeg yn ystod cyfarfod

- Yn Siambr y Cyngor, siaradwch yn glir trwy'r microffonau ar y desgiau a diffoddwch y microffonau ar ôl eich cyfraniad.
- Cyn i chi ddechrau siarad yn Gymraeg, gadewch i eraill wybod eich bod ar fin gwneud hynny.
- Cofiwch, oherwydd natur cyfieithu ar y pryd, dydy pob gair ddim yn cael ei gyfieithu.
- Sicrhewch bod cyfranwyr yn siarad yn eu tro, does dim modd i gyfieithydd gyfieithu dau lais ar yr un pryd.

## Cadeirio cyfarfod dwyieithog

Mae gan gadeiryddion rôl bwysig wrth sicrhau bod modd i bobl ddefnyddio eu dewis iaith. Mae modd i gadeiryddion wneud y canlynol i hwyluso cyfarfod dwyieithog llwyddiannus:

- Agor y cyfarfod yn ddwyieithog:  
“*Noswaith dda a chroeso i chi gyd*” / “*Good evening and welcome*”.
- Yn unol â Safonau'r Gymraeg, cyhoeddi bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael fel bod modd i unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu yn Gymraeg wneud hynny.
- Cyhoeddi bod y clustffonau cyfieithu ar y pryd yn cael eu glanhau, ond bod croeso i ddefnyddwyr ddefnyddio cadachau diheintio i'w glanhau.
- Gofyn i ddefnyddwyr wisgo eu clustffonau a sicrhau bod yr offer yn gweithio'n iawn drwy gynnal prawf byr.
- Yn Siambr y Cyngor, atgoffar siaradwyr i ddefnyddio'r microffonau - dim ond yr hyn y mae'r cyfieithydd ar y pryd yn ei glywed fydd yn cael ei gyfieithu.
- Atgoffar rhai sy'n bwriadu cyfrannu yn Gymraeg i roi rhybudd ymlaen llaw fel bod modd i eraill wisgo'u clustffonau, e.e. “Dwi'n mynd i siarad Cymraeg”. Bydd gadael y clustffon ynghyn ac ar y clustiau (os yw defnyddiwr am wneud hynny) yn cyflymu'r broses hon.
- Esbonio y dylai pawb siarad yn ei dro gan fod dim modd i'r cyfieithydd ar y pryd gyfieithu dau lais ar yr un pryd.
- Os oes angen codi mater ynglŷn â'r offer cyfieithu / y cyfieithiad, gwnewch hynny trwy'r Cadeirydd.

## Cymorth a hyfforddiant

Mae modd i Wasanaethau Llywodraethol a'r Uned Gwasanaethau Cymraeg drefnu hyfforddiant a chymorth o ran defnyddio offer cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd yn ogystal â hwyluso cyfarfodydd dwyieithog.

Yn ychwanegol at hyfforddiant cyffredinol, mae croeso i Gyngorwyr a staff gysylltu â'r naill wasanaeth neu'r llall yn uniongyrchol ar gyfer sesiynau hyfforddi 'drws agored' byr pan fo'n gyfleus. Mae modd cynnwys hyfforddiant ar gyfieithu ar y pryd / systemau dolen ar gyfer y rheiny sydd â nam ar eu clyw yn rhan o unrhyw hyfforddiant.



### Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwasanaethau Llywodraethol:  
[gwasanaethaupwyllgor@rctcbc.gov.uk](mailto:gwasanaethaupwyllgor@rctcbc.gov.uk)

Uned Gwasanaethau Cymraeg:  
[translation-cyfieithu@rctcbc.gov.uk](mailto:translation-cyfieithu@rctcbc.gov.uk)